Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 23ain o Fedi 2009 am 7.30yh.

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Y Cyng. Colin Jenkins, Y Cyng. Roy Davies, Y Cyng. Fran Murphy, Y Cyng. Ieuan Gwyn, Y Cyng. Edward Thomas.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Julia Jones, Y Cyng. Hugh Towns, Y Cyng. Ros Bellamy, Y Cyng. Richard Wallace, Y Cyng. Dawn Wallace, Y Cyng. Chris Parish

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Adroddodd PC Vernon Thomas bod 2 drosedd wedi cael eu cofnodi. Roedd un yn achos o ddifrod troseddol a'r llall yn achos o siop ladrata. Roedd ymchwiliadau'n parhau i'r ddau achos.

Cof 147 / Medi /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Ngwesty'r Cawdor ym mis Hydref, rhwng Penaethiaid ysgolion lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Gâr, mewn perthynas â chynlluniau i ad-drefnu ysgolion uwchradd yn yr ardal. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir i holi p'un ai bod CSG yn gyfrifol am gynnal a chadw Cloc yr Eglwys. Adroddodd y Cynghorydd Jones y byddai nifer o'r ffyrdd ymyl yn y Dref yn cael eu harwynebu yn y dyfodol agos. Dywedodd hefyd bod rhyw £50,000 wedi cael ei wario gan CSG ar barc Penlan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fe wnaeth y Cynghorydd Jones wahodd yr holl Gynghorwyr i agoriad y pafiliwn tenis newydd ar y 1af o Hydref. Hefyd, cyhoeddodd y byddai'r Gweinidog Amaeth yn agor, yn swyddogol, y cyfleusterau newydd yn Home farm, yn unol â'r prosiect Tywi'r Oesoedd, ar y 18fed o Dachwedd.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones ei fod yn teimlo y dylai'r Cyngor Tref adrodd pryderon sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir wrtho ef yn y lle cyntaf, yn hytrach na chysylltu â swyddogion CSG.
Gofynnodd y cyfarfod i'r Cynghorydd Sir Jones i ddarganfod a yw cynnal a chadw wal yr Eglwys yn gyfrifoldeb i adran Priffyrdd CSG neu Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru.

Cof 148/ Medi / 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 22ain o Orffennaf, 2009, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 29ain o Orffennaf 2009, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 9fed o Fedi 2009, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 9fed o Fedi 2009, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, gyda'r diwygiad canlynol:-

Cof 140 / Medi / 09 Cyfrifon i'w talu YCHWANEGU – CGGC (Cyflogau Gorffennaf) £34.79 Awdurdodwyd yn Awst.

Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 149 / Medi / 09 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Parthed â Cof 120 / Gorff / 09. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â Mr John McEvoy i drefnu dyddiad newydd i gwrdd mewn perthynas â lleoedd parcio i drigolion.
Parthed â Cof 130 / Gorff / 09. Cafwyd cais gan y Cyng. Roy Davies bod yr aelodau'n derbyn adroddiad newydd ar y trafodaethau mewn perthynas â datblygiad y Gogledd sy'n arfaethedig, i gynnwys y sylwadau ychwanegol a wnaed gan y Cynghorwyr. Roedd angen anfon copïau i Davies Richards a Rhodri Glyn Thomas hefyd.
Parthed â Cof 138 / Medi / 09. Dywedodd y Cyng Roy Davies ei fod ym meddiant dogfen oddi wrth David Rice, yn gwneud cais am ganiatâd CSG i glirio gardd y Cyngor. Rhoddwyd caniatâd i'r Cyng. Davies i'w basio ymlaen i CSG.

Cof 150/ Medi/ 09 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Cydlynydd Gorfodi CSG - Parthed â throlïau siopa gadawedig - Nodwyd.
2. Adroddiad Myfyrwyr Ysgol Tregib ar ymweliad NASA - Gofynnwyd i'r Clerc i wahodd y myfyrwyr, ynghyd â David Wall, i annerch y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.
3. Cyng. Richard Wallace - llythyr o ymddiswyddiad o fod yn Llywodraethwr ar Ysgol GS Llandeilo am resymau personol. Derbyniwyd y llythyr hwn. Fe wnaeth y Cyng. Colin Jenkins gynnig y Cyng. Edward Thomas fel Llywodraethwr enwebedig y Cyngor. Eiliodd y Cyng. Charlotte Leadbeater y cynnig. Roedd pawb o blaid. Gofynnwyd i'r Clerc i anfon manylion y Cyng. Thomas i CSG.
4. Polisi Hapchwarae CSG. Cytunwyd y byddai'r Cyng. Colin Jenkins yn cwblhau'r holiadur.
5. Cymunedau Di-garbon - cais i annerch y Cyngor. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y dylid newid amserau cyfarfodydd pwyllgor mis Hydref, er mwyn galluogi i siaradwr o 'Cymunedau Di-garbon' i annerch y Cynghorwyr i gyd rhwng 7.30-8yh. Roedd pawb o blaid.

Cof 151 / Medi / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Swyddfa Archwilio Cymru – adroddiad ar y trefniadau Ariannol. Buasai Mr Chris Plummer yn darllen y ddogfen ac yna byddai'n adrodd nôl i'r Pwyllgor Cyllid.
2. Un Llais Cymru – penodwyd swyddog datblygu newydd - Dr Del Morgan.
3. Cynhadledd safonau Blynyddol CSG ar 14.10.09. Nodwyd.
4. Ian Jameson – llythyr o ddiolch am y digwyddiad Jas yn y Parc ar 19.9.09. Nodwyd.
   Cynigodd y Cynghorwyr bleidlais o ddiolch i'r Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater am drefnu'r digwyddiad.

5. Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol LlCC. Nodwyd.

Cof 152 / Medi /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

Hugh Gwynne (strimio ym Mharc Penlan)	£	115.00
Hugh Gwynne (gwaredu iorwg ar Neuadd y Sir)	£	40.25
BT (treuliau ffôn y swyddfa)	£	53.16
Goleuadau Troedffyrdd CSG (Ebrill i Orffennaf 2009)	£	284.92
JW Thomas (posteri ar gyfer y digwyddiad Jas yn y Parc)	£	40.00
N.Wall (ysgythru tlws/tarian)	£	4.60
Prospect Construction (gwaith cynnal a chadw yn Neuadd y Sir)	£	166.75
Mr Des Davies (prynu clo)	£	25.52
Clerc y Dref (prynu Norton Security i'r cyfrifiadur)	£	23.49

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 153 / Medi / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor ar yr holl faterion technegol. Adroddodd Mr Davies bod nifer o dasgau cynnal a chadw brys i'w gwneud yn Neuadd y Sir.
Roedd angen darnau ychwanegol ar gyfer y boeler.
Rendrwyd y piniwn. Cafodd y wal portico ei diddosi am gost o £290. Bu'n rhaid defnyddio sgaffaldau i waredu'r iorwg a oedd yn tyfu ar y wal gefn, a chost y gwaith oedd £780. Rhoddodd Mr John Owen ganiatâd i'r gweithwyr i weithio ar ei dir.
Byddai atgyweirio'r ffenestr do yn costio £ 125 i gychwyn, gyda'r posibilrwydd y byddai'n rhaid ei hamnewid. Roedd angen blocio dwy awyrell am gost o £60.
Yr amcan bris am ddarparu sylfaen ar gyfer sedd ym Mharc Penlan oedd £284.

Cof 154 /Medi / 09 Hamdden ac Ardaloedd Chwarae'r Plant

Cytunwyd gohirio'r eitem hon nes cyfarfod mis Hydref, i ystyried sefydlu gweithgor.

Cof 155 / Medi/ 09 Adroddiad y Faeres.

Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis.

Cof 156 / Medi / 09 Adroddiadau Eraill

i) Prosiect Drws Agored.
Adroddodd y Cyng. Roy Davies bod y trefniadau ar gyfer y Diwrnod Agored ar Ddydd Sadwrn y 26ain o Fedi i gyd mewn llaw. Byddai'r Comisiwn Brenhinol Adeiladau Hanesyddol yn rhoi darlith am 11yb, a byddai teithiau tywysedig o gapeli lleol yn cael eu cynnal yn y prynhawn.

ii) Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Adroddodd y Cyng. Roy Davies y byddai ef a'r Cyng. Edward Thomas yn cwrdd gydag Anne Hobbs o Tywi'r Oesoedd i drafod grantiau posib.

iii) Is-grŵp Tân Gwyllt
Gofynnodd y Cyng. Colin Jenkins i'r Cyngor i godi'r yswiriant digwyddiad i £ 10 miliwn. Roedd pawb o blaid. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn y byddai caniatâd yn cael ei roi i'r Swyddog Technegol i fynychu seminar hyfforddi tân gwyllt ym Mhenybont ar Ogwr, ac y byddai ei dreuliau teithio'n cael eu talu. Roedd pawb o blaid. Byddai'r gwaith glanhau'n cael ei wneud ar fore Sadwrn y 7fed o Dachwedd, a byddai cymorth cyd-

gynghorwyr yn cael ei groesawu. Cadarnhaodd y Clerc yr anfonwyd yr holl lythyrau i'r mudiadau priodol.

iv) Is-grŵp Goleuadau Nadolig.

Adroddodd Mr Davies fod yr holl ddogfennau wedi cael eu cwblhau ar gyfer y datganiad dull sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Byddai rhywun yn cysylltu â Gwesty'r Cawdor mewn perthynas â mynediad i ystafelloedd gwely, er mwyn i Lloyds i brofi'r pwyntiau angori. Byddai'r Cyng. Charlotte Leadbeater a'r Cyng. Fran Murphy yn trafod gyda'r Siambr Fasnach. Dywedodd y Clerc fod band Arian Rhydaman wedi cael ei fwcio.

Cof 157 /Medi /09 Eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Cadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd ym mis Rhagfyr fel a ganlyn

i) Cynhelir cyfarfod Cyllideb y Cyngor Llawn ar y 9fed o Ragfyr 2009.
ii) Cynhelir cyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 16eg o Ragfyr 2009.
iii) Cynhelir derbyniad Nadolig y Faeres yn y Neuadd Ddinesig ar Nos Sadwrn y 12fed o Ragfyr am 7.30 i 8.00yh.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40yh.